

Coleg Gwent

EICH CANLLAW I
YMUNO Â NI FEL UN
O LYWODRAETHWR
COLEG GWENT

Cynnwys

1. Croeso i Goleg Gwent
2. Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol
3. Ein campysau
4. Ein cynnig
5. Ein corff llywodraethu
6. Pam ymuno â ni?
7. Beth mae'n ei olygu?
8. Ai chi yw'r person iawn?
9. Beth nesaf?

CROESO I COLEG GWENT

Mae Coleg Gwent yn un o'r colegau sy'n perfformio orau yng Nghymru ac mae'n rhan annatod o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae gennym bron i 40,000 o fyfyrwyr wedi'u lleoli ar draws 5 campws, **canolfan hyfforddi busnes** a'n **lleoliadau cymunedol**. Rydym yn goleg cynhwysol ac mae ein staff yn gweithio'n hynod galed i helpu pob un o'n dysgwyr i gyflawni'u potensial.

Yn adroddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru ar Ddeilliannau Dysgwyr daethom yn gyntaf yng Nghymru ar gyfer cyrsiau galwedigaethol ac yn gydradd ail ar gyfer cyfraddau llwyddiant ym mhob prif gymhwyster wedi'u cyfuno. Mae ein graddau **Safon Uwch** yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac at hynny dyfarnwyd 'rhagorol' inni yn 17 o 24 maes pwnc – felly mae gennym lawer i'w ddathlu.

Un o'r colegau sy'n

perfformio orau yng Nghymru

Ni yw'r coleg sy'n perfformio orau yng Nghymru o ran cyrsiau galwedigaethol*

- ★ Llwyddodd 40% o'r myfyrwyr diploma estynedig i gael rhagoriaeth driphlyg – sy'n gyfwerth â thair gradd A Safon Uwch
- ★ Llwyddodd 66% o'r myfyrwyr diploma estynedig i gael o leiaf un rhagoriaeth
- ★ Mae cyfradd lwyddo Lefel 1 yn 94% a chyfradd lwyddo Lefel 2 yn 94%
- ★ Llwyddodd 66% o'r myfyrwyr diploma estynedig i gael o leiaf un rhagoriaeth

Rydym yn gydradd gyntaf yng Nghymru ar gyfer cyrsiau academiaidd, gan gynnwys Safon Uwch*. Yn 2016/17 roedd ein cyfraddau llwyddo Safon Uwch yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU a Chymru:

- ★ Parth Dysgu Blaenau Gwent - 99%
- ★ Campws Crosskeys - 99%

Fel un o'r colegau mwyaf yng Nghymru,

mae gennym uchelgeisiau mawr...

EIN CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

EIN GWELEDIGAETH

Y Coleg o Ddewis.

EIN CENHADAETH

Gwella cyfleoedd bywyd.

Rhagoriaeth mewn addysg.

I bawb.

EIN BLAENORIAETHAU STRATEGOL AR GYFER 2016 - 2019

1. Bydd pob dysgwr yn cyflawni'i botensial llawn
2. Bydd pob dysgwr yn profi addysgu ac asesu rhagorol
3. Bydd pob dysgwr yn derbyn gofal, arweiniad a chefnogaeth ragorol
4. Bydd y coleg yn darparu arweinyddiaeth a llywodraethu rhagorol ar bob lefel
5. Bydd y coleg yn sicrhau dyfodol cynaliadwy

...a gallech chi ein helpu i'w gwireddu

EIN CAMPYSAU

Un coleg ydym, ond mae pob campws yn unigryw.

Parth Dysgu Blaenau Gwent



- Ystod lawn o gyrsiau galwedigaethol, o chwaraeon moduro i gerddoriaeth a phopeth yn y canol
- Cartref i dros 1,500 o fyfyrwyr addysg bellach
- Y prif ddarparwr yn system addysg drydyddol Blaenau Gwent
- Enillodd y canlyniadau Safon Uwch gorau y mae Blaenau Gwent wedi'u cael erioed – 99.6% yn 2016 – yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol

Campws Dinas Casnewydd



- Mae'n cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau galwedigaethol
- Mae'n gartref i dîm rhyngwladol sy'n cysylltu â cholegau tramor i ddod â myfyrwyr i Gasnewydd i astudio – nhw a enillodd Wobr y Cyngor Prydeinig am Adeiladu Partneriaethau Rhyngwladol yn 2015
- Mae ganddo dîm mawr yn dysgu cwrs Saesneg fel Ail Iaith
- Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion 11-18 oed lleol, gan gynnwys darparu cyfleoedd cwricwlwm amgen i fyfyrwyr blwyddyn 10 ac 11
- Mae'n gartref i dros 2,500 o fyfyrwyr addysg bellach
- Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu campws newydd yng nghanol dinas Casnewydd (Ardal Wybodaeth Casnewydd) mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Casnewydd a **Phrifysgol De Cymru**

EIN CAMPYSAU

Un coleg ydym, ond mae pob campws yn unigryw.

Campws Crosskeys



- Mae'n cynnig ystod lawn o gyrsiau galwedigaethol, o drin gwallt a harddwch i letygarwch ac arlwyo
- Y prif ddarparwr cyrsiau **Safon Uwch** yn yr ardal, yn cynhyrchu canlyniadau rhagorol mewn 34 o bynciau – gyda chyfradd lwyddo o 99.2% yn 2016
- Mae'n gartref i bron i 3,000 o fyfyrwyr addysg bellach
- Cyfleusterau celfyddydau perfformio o'r radd flaenaf, gan gynnwys theatr, stiwdio ddrama a swit recordio a golygu
- Cartref **Morels** – bwyty hyfforddi masnachol sy'n arlwyo bwyd blasus i'r cyhoedd

Campws Pont-y-pŵl



- Mae'n cynnig amrywiaeth o gyrsiau galwedigaethol
- Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion yn Nhorfaen.
- Cartref **Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent** sy'n cynnig cyrsiau ar gyfer unigolion, grwpiau a chyflogwyr
- Lleoliad **Y Priordy**, canolfan arbenigol i ateb anghenion addysgol a chymdeithasol pobl ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig

EIN CAMPYSAU

Un coleg ydym, ond mae pob campws yn unigryw.

Campws Brynbuga



- Safle gwledig sy'n cynnig cyrsiau **diwydiannau'r tir, chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus**
- Mae'n cynnwys fferm weithredol 296 erw, canolfan gofal anifeiliaid a **chanolfan geffylau**
- Cartref i'r **Ganolfan Sgiliau Oedolion** – sy'n gweithio gydag oedolion ag anawsterau dysgu ysgafn i ganolig
- Lleoliad ar gyfer un o **ganolfannau ailgartrefu cathod** fwyaf llwyddiannus y Deyrnas Unedig a redir gan y Groes Las

Busnes Coleg Gwent – Y Siambrau Brenhinol



- Cangen fasnachol y coleg sy'n cynnig **hyfforddiant pwrpasol**, cymwysterau proffesiynol a chysiau byr ar gyfer busnesau ac unigolion
- **Prentisiaethau** mewn peirianeg, cerbydau modur, adeiladu, iechyd a gofal, a lletygarwch
- Wedi'i leoli yng nghanol dinas Casnewydd ond yn darparu hyfforddiant ledled De Cymru ac i Fryste
- Mae'n gweithio gyda chleientiaid gan gynnwys y Celtic Manor, BAE Systems a'r Bathdy Brenhinol

Mae campws newydd yn cael ei ddatblygu a fydd wedi'i leoli yng Nghwmbrân, yn darparu addysg ôl-16 yn Nhorfaen. Bydd yn agor ei ddrysau ym mis Medi 2019

Mae gennym rywbeth

i'w gynnig i bawb

Cyrsiau amser llawn

Rydym yn cynnig cannoedd o gyrsiau ar draws 18 maes pwnc ar 5 campws. Mae'r mwyafrif o'n myfyrwyr llawn amser yn dod atom ar ôl eu TGAU ond rydym hefyd yn denu dysgwyr hŷn sydd eisiau ailhyfforddi.

Addysg uwch

Rydym yn cynnig proffil cynyddol o **gyrsiau prifysgol** ar bob un o'n campysau, fel y bydd pobl yn gallu ennill cymwysterau prifysgol yn lleol, heb orfod teithio ymhellach i ffwrdd. Mae gennym bartneriaethau cydweithredol gyda **Prifysgol De Cymru**, **Prifysgol Aberystwyth** a **Prifysgol Caerwrangon**.



Cyrsiau Rhan Amser

Mae gan bobl sydd am astudio'n rhan amser lawer o opsiynau – gallant astudio **ar ein campysau**, yn ein **lleoliadau cymunedol** yn ein 5 ardal awdurdod lleol ac **ar-lein**. Mae ein cyrsiau'n cynnwys cymwysterau proffesiynol, tystysgrifau coleg a detholiad o ddosbarthiadau'n ymwneud â hobiau.

Hyfforddiant busnes

Mae **Busnes Coleg Gwent** yn cynnig hyfforddiant proffesiynol i fusnesau ac unigolion. Gan gydweithio'n agos â chleientiaid, mae'r tîm yn gallu teilwra hyfforddiant i anghenion pwrpasol neu ddarparu cyrsiau proffesiynol byr i fodloni rheoliadau diwydiant. Mae ein hystod helaeth o gyrsiau'n cwmpasu sawl sector busnes ac mae'n cynnwys ILM, diogelwch seibr, diogelwch safleoedd, cymorth cyntaf, diogelwch bwyd, NEBOSH, Microsoft Office, llif gadwyn a llawer mwy.

Mae ein tîm **Prentisiaethau** hefyd yn rhan o Fusnes Coleg Gwent.

EIN CYNNIG

Prentisiaethau

Mae Coleg Gwent yn rhan o gonsortwm mwy o golegau a darparwyr hyfforddiant, B-wbl, sy'n cynnig cyrsiau o ansawdd uchel yn y man gwaith. Rydym yn canolbwyntio ar y sectorau adeiladu, cerbydau modur, peirianeg, iechyd a lletygarwch.



Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent

Drwy Bartneriaeth Dysgu Cymunedol Oedolion Gwent, mae'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion yn cynnig cannoedd o gyrsiau Cymraeg mewn lleoliadau cymunedol yn Ne-ddwyrain Cymru, yn ogystal ag yn ei chanolfan ar Gampws Pont-y-pŵl. Ceir amrediad o gyrsiau, o rai i ddechreuwr pur i rai lefel uwch. Mae'r ganolfan hefyd yn cynnal digwyddiadau cymdeithasol, ysgolion haf a gweithgareddau i'r teulu.

Dysgu Cymunedol i Oedolion

Rydym yn cynnig dewis eang o gyrsiau yn y cymunedau lleol yng Nghasnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy. Mae ein cyrsiau wedi'u cynllunio'n unigryw i roi ystyriaeth i brysurdeb bywyd ac ymrwmiadau gwaith neu deuluol.

Mae'r ystod o gyrsiau rydym yn eu

cynnig mor amrywiol â'n cymunedau lleol

EIN CORFF LLYWODRAETHU

Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gwent yw ein corff llywodraethu (a gyfeirir ato hefyd fel 'Y Bwrdd'). Mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau gwirfoddol di-dâl o'r sector cyhoeddus, busnesau lleol, y gymuned a staff a myfyrwyr Coleg.

Pwy ydym ni?

Mae gennym 16 o aelodau Bwrdd, gan gynnwys y Pennaeth/Prif Weithredwr, dau aelod o staff a dau fyfyrwr. Rydym yn recriwtio llywodraethwyr ar sail darparu'r ystod o sgiliau a phrofiad i sy'n angenrheidiol i'r Bwrdd er mwyn goruchwyllo'r gwaith o redeg y coleg. Mae pob un ohonom yn dod â'n harbenigedd a'n gwybodaeth ein hunain i'r rôl.

Beth yw ein rôl?

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob mis o dan reolaeth y Cadeirydd. Ein prif gyfrifoldebau yw:

- Penderfynu ar gymeriad a chenhadaeth addysgol y coleg
- Goruchwyllo gweithgareddau'r coleg
- Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau
- Sicrhau cynaliadwyedd ariannol y coleg
- Cymeradwyo'r gyllideb weithredu flynyddol
- Penodi, gwerthuso, atal a phenderfynu ar dâl ac amodau gwasanaeth deiliaid swyddi uwch
- Diswyddo deiliaid swyddi uwch
- Gosod fframwaith ar gyfer tâl ac amodau gwaith yr holl staff eraill
- Adolygu a chymeradwyo'r Cynllun Strategol
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i gynghori'r Pennaeth ar gynllunio, cydlynu a datblygu gwaith academaidd y coleg

Ein pwyllgorau

Mae'r Bwrdd yn gweithredu nifer o bwyllgorau sy'n gweithio gyda'i gilydd i fodloni ein hamcanion.

Mae'r **Pwyllgor Archwilio'n** cwrdd bob tymor ac mae'n gyfrifol am reolaeth fewnol, rheoli risg a monitro cydymffurfiaeth â gofynion statudol mewnol ac allanol.

Mae'r **Pwyllgor Chwilio'n** cyfarfod bob tymor ac mae'n delio â recriwtio a datblygu llywodraethwyr yn ogystal â monitro proffil sgiliau'r Bwrdd.

Mae'r **Pwyllgor Tâl** yn cyfarfod yn flynyddol i ystyried perfformiad, cyflog ac amodau gwasanaeth deiliaid swyddi uwch (y Pennaeth, y Dirprwy Benaethiaid a'r Swyddog Llywodraethu).

Ymhlith y pwyllgorau eraill y mae'r rhai sy'n ymwneud â materion disgyblaethol a gweithgorau dros dro i roi sylw i faterion penodol.

Rydym yn cynnal seminarau strategol bob tymor lle bydd yr aelodau'n ystyried materion strategol allweddol a chynlluniau tymor hir.

PAM YMUNO Â NI?

Rydym yn goleg llwyddiannus a phwrpasol

Yn ogystal â chyflawni cyfraddau llwyddo rhagorol, mae ein myfyrwyr yn cymryd rhan yn aml mewn cystadlaethau sgiliau gyda lefelau llwyddo eithriadol. Dyma rai o'r llwyddiannau diweddaraf:

- Aur ac Arian yng nghystadleuaeth harddwch UK Skills
- Aur yn rownd derfynol hyfforddwr ffitrwydd Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
- Aur yn rownd derfynol cyfrifeg Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
- Aur ac arian yng y Gystadleuaeth Gwaith Coed Sgiliau Cynhwysol
- Prentis trydanol y Flwyddyn SPARKS UK

Mae Llywodraethwyr yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi'r llwyddiant hwn.

Mae ein gwaith yn werthfawr

Mae cael cymaint o ddylanwad ar fywydau a dyfodol pobl eraill yn hynod o heriol ond mae hefyd yn werthfawr iawn. Mae boddhad mawr i'w gael o glywed storiâu gan gyn-fyfyrwyr sydd wedi mynd ymlaen i gyflawni eu nodau ar ôl gosod sylfeini eu llwyddiant yng Ngholeg Gwent. Mae'r Bwrdd bob amser yn awyddus i ddathlu llwyddiannau ac mae Llywodraethwyr yn mwynhau mynychu digwyddiadau megis ein nosweithiau gwobrwyo blynyddol. Fel Llywodraethwr, byddwch hefyd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Byddwn yn ehangu'ch profiad

Nid yn unig y bydd y coleg yn elwa ar eich mewnbwn fel llywodraethwr – cewch y cyfle i ehangu'ch rhwydweithiau, ennill sgiliau newydd a chael profiad a fydd yn cyfrannu at eich datblygiad personol.

BETH MAE'N EI OLYGU?

Rydym yn chwilio am unigolion talentog, ymroddgar a brwdfrydig i ymuno â'n Bwrdd. Fel llywodraethwr, byddai disgwyl i chi:

- Gydymffurfio â'r Offeryn Statudol a'r Erthyglau Llywodraethu a dogfennau statudol eraill
- Mynychu cyfarfodydd misol o'r Bwrdd (fel arfer ar nos Fawrth)
- Darllen papurau a roddir i chi a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd
- Mynychu seminarau strategol bob tymor
- Cyfrannu at unrhyw bwyllgor yr ydych yn gwasanaethu arno (fel arfer cynhelir y cyfarfodydd bob tymor)
- Cefnogi pob penderfyniad a gymerir gan y Bwrdd ar sail 'cydgyfrifoldeb'
- Cymhwyso'ch sgiliau a'ch arbenigedd er budd y Gorfforaeth
- Gweithredu bob amser er lles y Gorfforaeth
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu llywodraethwyr/ymwybyddiaeth
- Cymryd diddordeb ym mywyd ehangach y coleg a, phryd y bo'n bosibl, mynychu digwyddiadau'r coleg
- Cadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Gorfforaeth a'r Pwyllgorau a'r Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru

AI CHI YW'R PERSON IAWN?

Rydym am i'n bwrdd fod mor amrywiol â phoblogaeth ein coleg ac rydym yn croesawu diddordeb o bob rhan o fywyd, felly, nid oes gennym enghraifft gadarn ond dyma rai gwerthoedd rydym yn chwilio amdanynt yn ein llywodraethwyr:

- Diddordeb mawr mewn addysg bellach a hyfforddiant ac awydd cryf i wella llwyddiant myfyrwyr
- Gwybodaeth o'r ardal leol a'i chymeriad economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol
- Gallu i ddeall materion cymhleth yn ymwneud â pholisi addysg gyhoeddus a hyfforddiant, cynlluniau'r coleg a pherfformiad y coleg
- Uchelgais i Goleg Gwent
- Gallu i ffurfio perthynas waith effeithiol gyda llywodraethwyr eraill a chyda myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid
- Gallu i graffu, herio a chefnogi'n weithgar waith staff uwch y coleg
- Gallu i gyfrannu drwy esiampl at gorff llywodraethu sy'n dysgu
- Awydd i weithio'n galed fel llywodraethwr gwirfoddol er budd Coleg Gwent
- Parodrwydd i weithredu'n onest, yn agored ac yn ddiffuant

Beth nesaf?

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o goleg llwyddiannus, gwerthfawr ac amrywiol, cysylltwch â:

Marie Carter
Swyddog Llywodraethu
Coleg Gwent
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1XJ

E-bost: marie.carter@coleggwent.ac.uk

Ffôn: 01495 333519

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: www.coleggwent.ac.uk